**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-949
Ein cyf/Our ref DET/00723/20

Janet Finch-Saunders MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Mehefin 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau yn gofyn am fy sylwadau ar y cais i gyfeirio'r penderfyniad ynghylch rhestru cyn Ysgol y Merched, y Bont-faen at sylw adolygiad gan gymheiriaid annibynnol dan ofal Historic England neu Historic Environment Scotland.

Rwy'n gwbl ymwybodol o gryfder y teimladau lleol ynghylch Ysgol y Bont-faen ac rwy'n bersonol wedi ystyried yn ofalus pob cais i restru'r adeilad. Yn ogystal â'r asesiadau a gynhaliwyd gan swyddogion hynod brofiadol yn Cadw, cefais gyngor annibynnol gan Richard Hayman, hanesydd adeiladau ac archeolegydd https://www.richard-hayman.co.uk/index.html gydag arbenigedd penodol mewn adeiladau hanesyddol yng Nghymru ac mae'n cefnogi'r penderfyniad gwreiddiol i beidio â rhestru.

Rwy'n fodlon bod yr asesiadau rwyf wedi'u derbyn gan fy swyddogion a Mr Hayman yn ddiduedd ac wedi'u cyflawni i safon broffesiynol uchel. I gael eu rhestru, mae'n rhaid i adeiladau fod o bwys cenedlaethol ar sail eu diddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig ac nid wyf o'r farn bod ansawdd na chymeriad Ysgol y Bont-faen yn ddigonol i'w rhestru ar lefel genedlaethol, ac nid yw chwaith yn un o'r enghreifftiau gorau o'i bath. Nid wyf chwaith yn credu bod achos dros ofyn am gyngor annibynnol pellach nac am adolygiad gan gymheiriaid dan ofal sefydliad o Loegr neu'r Alban.

Ysgrifennais at ymgyrchwyr fis diwethaf yn egluro'r broses werthuso a gymerwyd a pham fy mod yn gwrthod eu cais am adolygiad cymheiriaid. Argymhellais, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, eu bod yn cyflwyno eu sylwadau i Gyngor Bro Morgannwg er mwyn i'r cyngor allu ystyried eu pryderon yng nghyd-destun rhestru lleol, wrth benderfynu ar y cais cynllunio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ac wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer rhoi diben newydd a chynaliadwy i'r adeilad, drwy ei ymgorffori yn ailddatblygiad y safle.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth